**Rhif yr Achos: 1600737/2018**

# TRIBIWNLYS CYFLOGAETH

**Hawlydd:** Nona Causer

**Atebydd:** Cyngor Gwynedd

**WEDI** ailystyried y dyfarniad dyddiedig **3 Hydref 2022** ar fenter y Tribiwnlys ei hun dan reol 73 Rheolau Trefniadau'r Tribiwnlys Cyflogaeth 2013, a heb wrandawiad, mae paragraff 2 y cyfryw ddyfarniad wedi'i amrywio fel y nodir isod.

# DYFARNIAD

1. Daethpwyd â chŵyn yr hawlydd o ddiswyddo annheg allan o amser ac fe'i gwrthodir.

2. (a) O ran gweithredoedd honedig o wahaniaethu a ddigwyddodd ar neu ar ôl 21 Awst 2017: daethpwyd â chwynion yr hawlydd o (i) wahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth a (ii) gwahaniaethu uniongyrchol ar sail rhyw uniongyrchol allan o amser ond mae'n gyfiawn ac yn deg i ymestyn yr amser.

   (b) Mewn perthynas â gweithredoedd honedig o wahaniaethu a ddigwyddodd cyn 21 Awst 2017: bydd materion (1) p'un a yw unrhyw weithredoedd honedig o'r fath o wahaniaethu yn ymestyn dros gyfnod o amser; (2) p'un a daethpwyd â phob un neu unrhyw un o'r cwynion (i) gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth a (ii) gwahaniaethu uniongyrchol ar sail rhyw yn ymwneud â'r gweithredoedd honedig hynny allan o amser; a (3) os ydynt allan o amser, p'un a fyddai'n gyfiawn ac yn deg i ymestyn yr amser mewn perthynas â phob un neu unrhyw un o'r cwynion hynny, yn cael eu penderfynu yn y gwrandawiad terfynol yn yr achos.

Y Barnwr Cyflogaeth McDonald
Dyddiedig: 16 Mawrth 2023

ANFONNWYD Y DYFARNIAD AT Y PARTÂON AR

3 Ebrill 2023

J Chambers
AT DDEFNYDD SWYDDFA'R TRIBIWNLYS